



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

MODULE CODE: ECDE7002

ASSESSMENT COMPONENT: 1

STUDENT NAME: Rachel Bendall

STUDENT NUMBER: 1658035

Doctorate in Education (EdD)

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 1

AI Acknowledgement

I acknowledge the use of ChatGPT <https://chatgpt.com/> on 21.03.26 to assist with finding sources relevant to my study. I used the prompt(s):

1. Find sources relevant to student-teachers' perceptions of their Welsh language skills

I acknowledge the use of ChatGPT <https://chatgpt.com/> on 07.04.26 to proof-read my work. I used the prompt(s):

1. Check spelling, grammar and punctuation for accuracy.
2. Is there any repetitive content that I can remove to reduce the word count?
3. Can some of my longer sentences be made more succinct?

I confirm that I have not presented any AI generated text as my own work.

I confirm that I have copies of my drafts, notes, and other resources I used before and after the use of AI tools which I may be asked to provide in evidence.

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 1

Rhestr o dermau ac acronymau

Addysg Gychwynnol Athrawon – AGA
Adeiladwriaethol – constructivist
British Educational Research Association – BERA
Cyngor y Gweithlu Addysg – CGA
Damcaniaeth nwl – null hypothesis
Darpar athro – student teacher
Deongliadol – interpretivist
Deongliadaeth - interpretivism
Dull prawf damcaniaeth – hypothesis testing
Epistemoleg – epistemology
Gwertheg – axiology
Ontoleg - ontology
Paradeim – paradigm
Positifaid – positivism
Positifiaeth – positivism
Pragmataidd – pragmatic
Profiadau byw – lived experiences
Research Excellence Framework – REF
Safleoldeb – positionality
Tuedd dymunoldeb cymdeithasol – similarity/affinity bias
Wales Institute of Social and Economic Research – WISERD

Teitl

Adfyfyrwch yn feirniadol ar baradeimau ymchwil a fyddai'n eich galluogi i gynnal ymholiad dulliau cymysg a fyddai'n bodloni cwestiynau ymchwil a nodwyd.

Gan gyfeirio at lenyddiaeth berthnasol, nodwch faes ymchwil y gallech fod eisiau ei archwilio. Crëwch rhwng 1 a 3 chwestiwn ymchwil y gellid eu hateb trwy ddull dulliau cymysg o gasglu data. Gwerthuswch yn feirniadol baradeimau ymchwil ansoddol a meintiol sy'n cysylltu â'ch cwestiynau ymchwil, gan gyfiawnhau pam eu bod yn briodol.

Cyflwyniad a rhesymeg

Adfyfyrir aseiniad hwn yn feirniadol ar archwiliad arfaethedig o'r rhesymau pam mae darpar athrawon yn teimlo nad yw eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da i ddilyn rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a rôl paradeimau ymchwil wrth ei lywio'n briodol. Dechreuir gydag eglurhad a dadansoddiad o'r maes ymchwil o fewn fframwaith damcaniaethol a llenyddol, cyn symud at y fethodoleg a'i dyluniad. Yn olaf, archwilir y cwestiynau ymchwil arfaethedig a'r paradeimau priodol cyn dod i gasgliadau.

Fel Addysgwr Athrawon â chyfrifoldeb strategol dros ddatblygiad y Gymraeg o fewn rhaglenni AGA mewn sefydliad Addysg Uwch, a elwir yn Sefydliad A at ddibenion yr aseiniad hwn (BERA, 2024), canolbwyntia'r ymchwil arfaethedig ar yr iaith Gymraeg. Detholir y maes hwn o fewn cyd-destun polisi a sefydliadol lle y gosoda strategaethau megis 'Cymraeg 2050' (Llywodraeth Cymru, 2017) a'r Ddeddf Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Llywodraeth Cymru, 2025) twf a chynhaliath yr iaith yn flaenoriaeth. Ategir y blaenoriaethau hyn gan strategaethau a chynlluniau gweithredol Sefydliad A (2025).

Fodd bynnag, y prif ysgogiad ar gyfer ffocws yr ymchwil yw arsylwadau proffesiynol a phrofiad personol (Shepherd et al., 2022), sy'n awgrymu tensiynau rhwng y weledigaeth strategol ar gyfer y Gymraeg a chanfyddiadau darpar athrawon unigol o'u gallu i gyfrannu ati. Yn benodol, ceir canfyddiad ymhlith rhai darpar athrawon ac athrawon cymwysedig sy'n siarad Cymraeg nad oes ganddynt y sgiliau i astudio nac addysgu drwy'r iaith (Llywodraeth Cymru, 2020; Office of National Statistics, 2022; Llywodraeth Cymru, 2023; Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), 2025). Awgryma ddata gan Lywodraeth Cymru (2023) fod gan 10,060 (tua 39.1%) o'r athrawon yng Nghymru yn 2023 y potensial i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg os cânt eu cefnogi ymhellach. O'r rhain, roedd 6,390 o athrawon (24.8%) yn addysgu neu'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu swydd bresennol, gyda 1,585 (6.2%) arall yn gallu gwneud hynny ond heb wneud hynny ar y pryd. Awgryma hyn, er bod gan tua

phedwar o bob deg athro sgiliau Cymraeg defnyddiadwy, mai dim ond tua chwarter sy'n cael eu defnyddio mewn rolau addysgu cyfrwng Cymraeg.

Nodwedd gyffredin ymhlith y grŵp hwn o ddarpar athrawon yw'r canfyddiad nad yw eu Cymraeg yn 'ddigon da'. Y canfyddiad hwn, ynghyd â chwilfrydedd deilliedig o brofiad personol a phroffesiynol (Shepherd et al, 2022; Geddes, dyfynnwyd yn Silverman, 2024), sy'n sail i ffocws yr ymchwil. Bwriedir i ganfyddiadau'r astudiaeth lywio cynllunio strategol ar gyfer darpariaeth y Gymraeg ar raglenni AGA yn Sefydliad A yn y lle cyntaf, yn ogystal â chyfrannu at drafodaethau cenedlaethol, ymchwil pellach a llenwi bwlch llenyddiaeth yn y maes.

Adolygiad llenyddiaeth

Datguddia adolygiad o'r llenyddiaeth ar ganfyddiadau darpar athrawon am safon eu Cymraeg bod y maes hwn yn brin iawn. O'r ffynonellau a chwiliwyd, dim ond wyth o'r tair ar ddeg oedd yn berthnasol i'r maes, ac ni chanolbwyntiodd unrhyw un yn benodol ar y pwnc hwn. Tanlinella hyn yr angen am ymchwil sy'n gwneud cyfraniad gwreiddiol i wybodaeth a dealltwriaeth, fel y nodir yn y Research Excellence Framework (REF 2029, 2026). Dibynna cyfraniad o'r fath ar wreiddioldeb, arwyddocâd ac arweiniad y wybodaeth a ddarperir, gan fynd y tu hwnt i'r gwaith presennol.

Awgryma'r llenyddiaeth bod gwahaniaethau rhwng canfyddiadau unigolion sy'n dysgu'r Gymraeg fel iaith ychwanegol a siaradwyr iaith gyntaf. Cysyllta Staples (2025) hyn â hunanasesiad dysgwyr, gan weld y Gymraeg fel eu hiaith wanaf. Noda Rhys a Smith (2022) bod amgylcheddau cymdeithasol, gan gynnwys cartref, ysgol a grwpiau cyfoedion, yn datblygu hyder unigolion wrth ddefnyddio'r iaith. Cyfranna'r pwysau a ddaw o'r system addysg, gan gynnwys arholi sy'n canolbwyntio ar gywirdeb yn hytrach na chyfathrebu naturiol, at y canfyddiad hwn (Rhys & Smith, 2022, 2025). Cymhara dysgwyr eu sgiliau â siaradwyr iaith gyntaf, gan arwain at ddiffyg hyder ac ofn beirniadaeth (Lee, 2015, 2016; Staples, 2025; Cohen, Manion & Morrison, 2018).

Dengys ymchwil gan Mayr, Morris a Gruffydd (2025) bod canfyddiadau dysgwyr am acen a hunaniaeth yn gysylltiedig â normau cymdeithasol. Dylanwada llwybrau dysgu iaith mewn ysgolion ac yn y cartref ar hunaniaeth ieithyddol unigolion (Mayr, Morris & Gruffydd, 2025). Amlinella Williams a Cooper (2021) bod cymhariaeth â siaradwyr iaith gyntaf yn arwain at deimladau o fod yn llai dyls neu'n llai "Cymreig go iawn". Gan fod rhuglder ac acen yn cael eu dehongli fel symbolau o berthyn i'r gymuned sy'n siarad Cymraeg, gall diffyg hyder a phwysau cymdeithasol leihau defnydd ymarferol o'r Gymraeg (Bourhis & Giles, 1973; Selleck & Barakos, 2023; Staples, 2025).


Awgryma Jones, Reppa a Reed (2022) fod anghydraddoldebau ieithyddol rhwng Cymraeg a Saesneg yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr ifanc ymarfer y Gymraeg, yn enwedig mewn meysydd fel cyfryngau cymdeithasol. Atega hyn ddadleuon Williams a Cooper (2021) am effaith amgylcheddau cymdeithasol ar hyder. Gellir dadlau bod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn creu cylch cythreulig lle mae defnydd isel yn cynyddu ansicrwydd a lleihau hyder (Llywodraeth Cymru, 2017; 2025; WISERD, 2023). Dengys canfyddiadau bod 54.4% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweld nad yw'r Gymraeg o bwys iddynt

(WISERD, 2023), a bod prinder ymarfer yn cyfrannu at y bwlch rhwng gallu a defnydd (Llywodraeth Cymru, 2025).

O ymgysylltu gyda llenyddiaeth berthnasol i'r maes, gellir casglu bod canfyddiadau unigolion o safon eu Cymraeg yn ganlyniad cymhleth o ffactorau cymdeithasol, addysgol ac hunaniaethol, gan gynnwys pwyslais ar gywirdeb mewn ysgolion (Rhys & Smith, 2022; Lee, 2016), cymariaethau â siaradwyr iaith gyntaf (Staples, 2025; Williams & Cooper, 2021), a chysylltiadau rhwng iaith a pherthyn (Bourhis & Giles, 1973; Selleck & Barakos, 2023). Cynyddu anghydraddoldebau ieithyddol a diffyg cyfleoedd ymarferol ansicrwydd (Jones, Reppa & Reed, 2022; WISERD, 2023; Llywodraeth Cymru, 2025). Cynigia Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 fframwaith i fynd i'r afael â hyn trwy flaenoriaethu defnydd ymarferol, ond bydd ei llwyddiant yn dibynnu ar fynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol a seicolegol ehangach a nodwyd uchod.

Fframwaith damcaniaethol a methodoleg

Cynigia Saunders, Lewis a Thornhill (2023) ddull ymarferol ar gyfer dyluniad ymchwil cydlynol a rhesymegol. Drwy weithio drwy un haen ar y tro o'r tu allan, sef yr athroniaeth ymchwil, i'r craidd, sef dulliau casglu a dadansoddi data, gosoda'r *Research Onion* (Saunders, Lewis & Thornhill, 2023, t. 131) strwythur ar gyfer y dyluniad ymchwil a drafodir yn y rhan hon o'r aseiniad (gweler Ffigur 1 isod).



Ffigur 1. Research Onion Saunders, Lewis & Thornhill (2023, t. 131)

Safleoldeb ac adfyfrio feirniadol

Deallir safleoldeb ac adfyfrio feirniadol fel elfennau hanfodol o drylwyrdd ymchwil, gan bwysleisio ymwybyddiaeth feirniadol o rôl yr ymchwilydd wrth greu gwybodaeth (Denscombe, 2021). Disgrifia Shepherd et al. (2022) adfyfrio feirniadol fel proses barhaus, tra nododd Thomas (2021) nad yw niwtraliaeth yn bosibl, gan wneud tryloywder yn allweddol. Pwysleisia Creswell a Creswell (2018, t. 44) yr angen i ymchwilwyr ddatgan rhagfarnau ar ddechrau astudiaeth gan gydnabod eu rôl fel y prif offeryn casglu data a sut mae'n siapia dyluniad ei ymchwil.

Yn yr astudiaeth hon, gall fy rôl broffesiynol fel Arweinydd Strategol y Gymraeg a'm profiadau personol o ddysgu'r Gymraeg greu tuedd. Er bod y diddordeb ymchwil yn ddilys, mae'r astudiaeth hefyd yn cyfrannu at fy natblygiad proffesiynol, gan awgrymu elfen o

hunan-fudd. Disgrifir hyn fel 'buddiannau'n gwrthdaro' (Romain, 2015; BERA, 2024). Cydnabyddaf hefyd y gall ymatebion gan rai cyfranogwyr gyflwyno elfen o duedd dymunoldeb cymdeithasol (*similarity/affinity bias*) (van Mulukom, 2026) wrth iddynt rannu profiadau tebyg, o bosib, i fy rhai i. Mae angen, felly, monitro fy safleoldeb yn feirniadol drwy gydol yr ymchwil (Shepherd et al., 2022).

Ontoleg

Gan ganolbwyntio ar ganfyddiadau cyfranogwyr, ymddengys bod yr ymchwil hon yn seiliedig ar ontoleg adeiladwriaethol, sy'n gweld realiti fel rhywbeth yr adeiladir yn gymdeithasol trwy ryngweithio a dehongli dynol, yn hytrach nag fel endid sefydlog allanol (Denscombe, 2021, t. 119; Creswell & Creswell, 2018, tt. 8–10). Pwysleisia'r dull hwn cymhlethdod safbwyntiau a phrofiadau byw, gan hybu dulliau ansoddol a goddrychol dros gyffredinoli a gwrthrychedd (Thomas, 2021, tt. 11–13; Cohen, Manion & Morrison, 2018, tt. 15–16). Er bod manteision i'r dull hwn mewn astudiaethau ymchwil bychain (Denscombe, 2021, tt. 20–22), awgryma cyfyngiadau y gall athroniaeth fwy pragmataidd, sy'n cyfuno dulliau ansoddol a meintiol, fod yn fwy addas (Creswell & Creswell, 2018, tt. 12–14).

Epistemoleg

Tra bod ontoleg yn canolbwyntio ar natur realiti, archwilia epistemoleg sut mae unigolion yn creu gwybodaeth am y byd cymdeithasol (Denscombe, 2021, t. 118). Gan ddibynnu ar ddehongli ymatebion cyfranogwyr am eu sgiliau Cymraeg, mabwysia'r astudiaeth hon epistemoleg ddeongliadol (Creswell & Creswell, 2018, tt. 8–9; Cohen, Manion & Morrison, 2018, tt. 17–19; Pring, 2015, tt. 30–34). Yn wahanol i epistemoleg bositifiaeth, mae'n oddrychol ac yn ceisio deall cyd-destunau trwy rhyngweithiadau a phrofiadau unigol, yn hytrach na thrwy ddulliau gwrthrychol a gwyddonol (Thomas, 2021, tt. 76–78; Cohen, Manion & Morrison, 2018, tt. 6–9). Er bod y ddwy yn ceisio gwybodaeth ddilys, ceir beirniadaeth o epistemoleg bositifiaeth am or-symleiddio profiad dynol, ac am or-bwysleisio safle niwtral yr ymchwilydd (Pring, 2015, tt. 24–28; Thomas, 2021). Fodd bynnag, yn debyg i egwyddorion ontoleg bragmataidd, gall cyfuno nodweddion cryfaf y ddwy epistemoleg arwain at ddealltwriaeth ddyfnach o broblemau cymhleth drwy ddulliau ansoddol a meintiol (Creswell & Creswell, 2018, tt. 14–15; Denscombe, 2021, t. 118).

Gwertheg

Dimensiwn athronyddol pwysig arall i'w ystyried ydy gwertheg (*axiology*), sef y rôl sydd gan werthoedd yn y broses ymchwil (Creswell a Creswell, 2018; Saunders, Lewis a Thornhill, 2023). Yn y *Research Onion* (Saunders, Lewis a Thornhill, 2023), gosodir gwerthoedd yn yr haen allanol ochr yn ochr ag ontoleg ac epistemoleg, er nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n benodol, sy'n destun beirniadaeth (Melnikovas, 2018). Serch hynny, maent yn sail i safbwyntiau athronyddol: ceisia positifiaeth gwrthrychedd ac yn lleihau rôl gwerthoedd, tra cydnabyddai deongliadaeth eu dylanwad ar ymchwil (Thomas, 2021; Cohen, Manion a Morrison, 2018; Pring, 2015). Llywia'r rhagdybiaethau hyn dewisiadau methodolegol. Yn y cyd-destun hwn, mae cydnabod a rheoli gwerthoedd yn hybu tryloywder, moeseg a chredadwyedd, ac yn cefnogi integreiddio dulliau'n effeithiol mewn ymchwil dulliau cymysg (Denscombe, 2021; Scotland, 2012).

Paradeim ymchwil

Darpara paradeimau ymchwil y sylfeini athronyddol sy'n llunio sut mae ymchwil yn cael ei deall a'i chynnal, gan gwmpasu rhagdybiaethau am realiti, gwybodaeth a gwerthoedd (Cohen, Manion a Morrison, 2018, tt. 6–9). Fe'u disgrifir yn aml fel byd-olygon sy'n dylanwadu ar ddylunio ymchwil a dewisiadau methodolegol, gan gynnwys dulliau positifaid, adeiladwriaethol a phragmataidd (Creswell a Creswell, 2018, tt. 5–9). Dadlau Pring (2015, tt. 24–28) bod rhaniadau paradeim llym yn gyfyngol, gan fod ymchwil yn gynhenid wedi'i llwytho gan werthoedd ac yn ddibynnol ar gyd-destun. Rhoddir pwyslais, felly, ar gydlyniant a hyblygrwydd wrth alinio safbwynt athronyddol â chwestiynau ymchwil (Scotland, 2012, tt. 9–11; Thomas, 2021, tt. 9–13).

Fel y nodwyd eisoes, gyda'i ffocws ar ganfyddiadau unigolion o'u sgiliau Cymraeg, ystyrir yn y lle cyntaf mai paradeim adeiladwriaethol ydy'r ymchwil hon (Denscombe, 2021). Fodd bynnag, aliniad mwy hyblyg a chydlynol rhwng y safbwynt athronyddol a'r maes ymchwil fyddai dewis a chymhwyso paradeim pragmataidd (Scotland, 2012; Thomas, 2021; Pring, 2015).

Diwedd glo

Wedi archwilio athroniaethau ymchwil yn feirniadol yng nghyd-destun y maes ymchwil dan sylw, cesglir mai paradeim pragmataidd fyddai orau ar gyfer yr ymchwil hon. Cydnabyddai bod realiti yn lluosog (ontoleg), y gellir creu gwybodaeth trwy'r ffyrdd mwyaf priodol

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 1

(epistemoleg), a bod gwerthoedd yn tywys dewisiadau ymarferol (gwertheg). Golyga hefyd y gellir mabwysiadu dull dulliau cymysg o gasglu a dadansoddi data (Saunders, Lewis a Thornhill, 2023), a dyma fydd canolbwynt adran nesaf yr aseiniad hwn.

Dulliau ymchwil

Fel y trafodwyd uchod, ar y golwg cyntaf ymddengys bod ffocws yr ymchwil hon yn alinio gyda pharadeim ymchwil adeiladwriaethol ac epistemoleg ddeongliadol (Denscombe, 2021; Creswell & Creswell, 2018). Golyga hyn wneud defnydd o ddulliau ansoddol, er enghraifft cyfweiliadau, o gasglu a dadansoddi data (Saunders, Lewis a Thornhill, 2023; Cohen, Manion & Morrison, 2018). Wedi archwilio'r cysyniadau hyn yn fanylach, ystyrir defnyddioldeb a phriodoldeb paradeim pragmataidd sy'n caniatáu cyfuno dulliau ansoddol a dulliau meintiol o gasglu a dadansoddi data (Scotland, 2012; Thomas, 2021; Pring, 2015).

Methodoleg dulliau cymysg

Drwy gyfuno gwybodaeth feintiol â naratifau manwl, atyniad dull dulliau cymysg yw ei fod yn manteisio ar gryfderau'r ddwy strategaeth, gan alluogi triongli sy'n cynyddu dilysrwydd y canlyniadau (Creswell, 2014). Galluoga dulliau meintiol, fel holiaduron, casglu data ar raddfa eang ynghylch canfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau Cymraeg, tra bod dulliau ansoddol, megis cyfweiliadau grŵp, yn cynnig mewnwelediadau cyd-destunol cyfoethog i brofiadau byw unigolion (Creswell, 2014).

Yn ogystal, gall dull cymysg ymateb i'r cymhlethdod sy'n cwmpasu canfyddiadau unigolion o'u hiaith ddatgelodd yr adolygiad llenyddiaeth. Drwy uno'r ddwy ymagwedd, mae'n bosibl archwilio nid yn unig beth yw canfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau Cymraeg, ond hefyd y ffactorau sy'n dylanwadu arnynt, gan gynnig dealltwriaeth fwy cyflawn o'r maes.

Dulliau samplu

Bwriedir defnyddio dau ddull samplu i recriwtio cyfranogwyr: samplu bwriadol a samplu cyfleustra. Ar gyfer y cyfweiliad grŵp, mabwysiadir samplu bwriadol, sef dull annhebygolrwydd sy'n targedu unigolion penodol (Denscombe, 2021). Nod hyn ydy cynnwys darpar athrawon sy'n dilyn eu rhaglen AGA drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rheiny sy'n medru'r Gymraeg ond sydd wedi dewis dilyn eu hastudiaethau drwy gyfrwng y Saesneg. Galluoga'r dull casglu data o'r "ffynonellau gorau" (Denscombe, 2021) ac yn arbennig o addas mewn ymchwil ansoddol lle dewisir cyfranogwyr yn ôl meini prawf penodol (Palinkas et al., 2015; Patton, 2002). Mae hefyd yn hwyluso cynnwys lleisiau ymylol a gwella tegwch a chynrychiolaeth (Creswell & Creswell, 2018).

Ar gyfer yr holiadur, defnyddir samplu cyfleustra, gan fanteisio ar rwydweithiau presennol i gyrraedd cyfranogwyr yn gyflym (Thomas, 2021; Neuman, 2014). Dosberthir holiadur Microsoft Forms drwy ddulliau cyfathrebu arferol y sefydliad (er enghraifft, Moodle, Blackboard, e-bost) gan alluogi mynediad eang a hyblyg. Er hyn, gall y ddau ddull arwain at gyfyngiadau megis rhagfarn samplu a chyffredinol cyfyngedig (Patton, 2002; Creswell & Creswell, 2018; Trochim & Donnelly, 2008).

Dulliau casglu data

Gofalir bod y dulliau casglu data yn cyd-fynd â'r paradeim pragmataidd a chyfuno dulliau ansoddol a meintiol (Cohen, Manion & Morrison, 2018; Saunders, Lewis a Thornhill, 2023). Defnyddir holiadur ar-lein i gasglu data meintiol ac ansoddol trwy gwestiynau caeedig ac agored a graddfa Likert (er enghraifft, 1 = anghytuno'n gryf i 5 = cytuno'n gryf) (Cohen, Manion & Morrison, 2018; Crotty, 1998). Er ei fod yn effeithlon, gall y dull hwn ddioddef o duedd samplu a chyfraddau ymateb isel (Bethlehem & Kersten, 2017; Cook & Campbell, 2000).

Cynhelir cyfweiliad grŵp lled-strwythuredig i gasglu data ansoddol mwy manwl (Cohen, Manion & Morrison, 2018). Defnyddir nodiadau maes yn ogystal â recordiadau sain er mwyn sicrhau cywirdeb a lleihau risg rhagfarn (Cohen, Manion & Morrison, 2018; Thomas, 2021). Mae hefyd yn galluogi cipio cyd-destun a chiwiau di-eiriau (Thomas, 2021). Er hyn, mae cyfyngiadau yn perthyn i'r dull. Gall recordiadau sain arwain at anghysur cyfranogwyr (Roulston, 2014; King & Horrocks, 2010), ac fe all deinameg grŵp ddylanwadu ar gyfranogiad (Krueger & Casey, 2015).

Dadansoddi data

Ystyrir defnyddio dadansoddiad thematig chwe cham Braun a Clarke (2006; 2022). Ar ôl ymglyfarwyddo â'r data, nodir patrymau'n systematig a datblygir themâu gan gynnwys dyfyniadau uniongyrchol i gynrychioli lleisiau cyfranogwyr (Braun & Clarke, 2006). Ond, er ei strwythur chwe cham sy'n ymddangos yn syml, mae sawl cyfyngiad i ddadansoddi thematig. Un feirniadaeth ohoni yw ei diffyg manylder damcaniaethol sy'n gallu arwain at anghysondeb neu gymhwyso arwynebol os nad yw safbwynt epistemolegol yn glir (Braun a Clarke, 2006; Nowell et al., 2017). Yn ogystal, dibynna'r dull ar ddehongliad yr ymchwilydd, gan gynyddu'r risg o ragfarn a thanseilio hygredd (Braun a Clarke, 2006; Thomas, 2017). Ymhellach, gall

dad-gyd-destunoli data yn ystod codio leihau ystyr a symleiddio profiadau cymhleth (Nowell et al., 2017).

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau hyn, bwriedir defnyddio dull prawf damcaniaeth (*hypothesis testing*) a phrawf ystadegol i fesur y tebygolrwydd bod yna gyswllt rhwng canfyddiadau siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a dysgwyr Cymraeg o'u gallu yn yr iaith. Eglura Creswell a Creswell (2018, tt. 115-117) bod dulliau meintiol o'r math yn deillio o ddamcaniaeth a llenyddiaeth sy'n cwmpasu'r maes ymchwil, ac yna'n cael eu profi gan ddefnyddio dulliau ystadegol sy'n derbyn neu'n gwrthod y ddamcaniaeth nwl (*null hypothesis*). Gellir llunio damcaniaeth nwl nad oes gwahaniaeth ystadegol rhwng y grwpiau, ac yna ei phrofi drwy ddulliau megis prawf t, gan fesur tebygolrwydd (*p-values*) i dderbyn neu wrthod y ddamcaniaeth nwl. Pwysleisia Cohen, Manion & Morrison (2018, t. 528) pwysigrwydd profi'r ddamcaniaeth nwl, wrth rybuddio nad ydy arwyddocâd ystadegol yn profi pwysigrwydd ymarferol. Er bod cyfyngiadau yn perthyn i'r dulliau hyn, er enghraifft efallai nad ydynt yn addas ar gyfer ymchwil raddfa fechan (Thomas, 2021, tt. 149–151), y nod ydy y bydd eu cyfuno gyda dulliau ansoddol yn gorbwyso rhai o'r cyfyngiadau (Creswell, 2014).

Ystyriaethau moesegol

Ymgeisir am gymeradwyaeth foesegol lawn gan Sefydliad A a dilynir canllawiau'r British Educational Research Association (BERA, 2024) a pholisïau sefydliadol. Sicrheir caniatâd gwybodus gwirfoddol, cyfrinachedd ac anhysbysrwydd, gan ddefnyddio dynodwyr (er enghraifft Cyfranogwr A, B, C ag ati) neu ffugenwau (Braun & Clarke, 2013; Heaton, 2021). Rhoddir pwyslais ar les cyfranogwyr a diogelwch data drwy gydol yr ymchwil, a chaiff cyfranogwyr wybod am eu hawl i dynnu nôl a'r trefniadau ar gyfer gwneud hynny (BERA, 2024; Thomas, 2021). Gweler Cydran Asesu 3, sef ffurflen moeseg enghreifftiol, am fanylion pellach.

Diwedd glo

Amlinellwyd a chyfiawnhawyd y fethodoleg arfaethedig ar gyfer yr astudiaeth hon, gan ystyried ei chryfderau a'i chyfyngiadau. Wedi'i gwreiddio mewn paradeim pragmataidd, mae'r ymchwil yn defnyddio dulliau cymysg, gan gynnwys holiadur a chyfweliad grŵp lled-strwythuredig. Drwy driongli data meintiol ac ansoddol, nod yr ymchwil yw meithrin dealltwriaeth ddyfnach o ganfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau Cymraeg. Yn rhan nesaf

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 1

yr aseiniad, cyflwynir a thrafodir cwestiynau ymchwil fydd yn caniatáu mynd i'r afael â'r broblem ymchwil a chynnig amcanion posib ar gyfer cyflawni ei nod trawsfwaol.

Cwestiynau ymchwil

Yn y rhan hon o'r aseiniad, troir sylw at gwestiynau ymchwil posib ar gyfer yr astudiaeth a'r rhesymau dros eu dewis. Ystyrir i ba baradeim maen nhw'n perthyn, a'r data gellir eu casglu a'u dadansoddi ar gyfer eu hateb. Cymhwysir trafodaethau a dadleuon a gyflwynwyd yn gynharach yn yr aseiniad at bob cwestiwn yn ei dro.

Cwestiwn ymchwil 1:

Beth yw canfyddiadau darpar athrawon sy'n dilyn rhaglenni AGA o'u sgiliau Cymraeg?

Canolbwyntia'r cwestiwn ymchwil hwn ar ddeall safbwyntiau a phrofiadau unigolion, ac felly mae'n alinio'n bennaf â pharadeim adeiladwriaethol. O fewn y paradeim hwn, ystyrir realiti fel rhywbeth a adeiladir yn gymdeithasol trwy brofiadau a rhyngweithio (Denscombe, 2021, t. 119; Creswell & Creswell, 2018, tt. 8–10). Awgryma'r ffocws ar "ganfyddiadau" epistemoleg ddeongliadol, lle mae gwybodaeth yn cael ei chreu drwy ddehongli ystyron a roddir gan gyfranogwyr (Cohen, Manion & Morrison, 2018, tt. 17–19; Pring, 2015, tt. 30–34).

Yn unol â hyn, cesglir data ansoddol. Defnyddir cyfweiliadau grŵp i gasglu data ansoddol manwl, a gaiff ei ddadansoddi drwy ddull thematig chwe cham Braun a Clarke (2006; 2022), gan nodi patrymau a themâu gyda dyfyniadau uniongyrchol. Er hynny, cydnabyddir cyfyngiadau'r dull hwn, megis dibyniaeth ar ddehongliad yr ymchwilydd a'r risg o ddad-gydestunoli data (Braun & Clarke, 2006; Nowell et al., 2017).

Adeilada'r cwestiwn hwn ar y llenyddiaeth drwy archwilio ffactorau megis cymariaethau cymdeithasol (Staples, 2025; Williams & Cooper, 2021), pwysau addysgol (Rhys & Smith, 2022, 2025), a diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (Jones, Reppa & Reed, 2022; WISERD, 2023).

Cwestiwn ymchwil 2:

I ba raddau mae darpar athrawon sydd wedi cofrestru ar raglenni AGA yng Nghymru yn canfod eu sgiliau iaith i beidio bod yn 'ddigon da' i astudio ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Eistedda'r cwestiwn ymchwil hwn yn y paradeim positifaid, gan ddefnyddio dulliau meintiol er mwyn archwilio i ba raddau mae darpar athrawon AGA yng Nghymru yn canfod nad yw eu sgiliau Cymraeg yn 'ddigon da' i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg (Creswell & Creswell, 2018, tt. 12–14; Scotland, 2012). Mae'r cwestiwn hwn yn cyd-fynd â chymhlethdod y llenyddiaeth, sy'n dangos bod canfyddiadau iaith yn cael eu llunio gan ffactorau cymdeithasol, addysgol a hunaniaethol (Rhys & Smith, 2022; Williams & Cooper, 2021).

Caiff data meintiol eu casglu drwy raddfa Likert mewn holiadur i fesur lefel hyder, hunanasesiad iaith a chymariaethau cymdeithasol. Galluoga hyn dadansoddiad ystadegol i archwilio patrymau cyffredinol, megis a oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr. Ar sail y llenyddiaeth (Staples, 2025; Lee, 2016), gellir llunio damcaniaeth nwl nad oes gwahaniaeth ystadegol rhwng y grwpiau, ac yna ei phrofi drwy ddulliau megis prawf t, gan fesur tebygolrwydd (*p-values*) i dderbyn neu wrthod y ddamcaniaeth nwl (Creswell & Creswell, 2018, tt. 115–117; Cohen, Manion & Morrison, 2018, t. 528).

Cwestiwn ymchwil 3:

Beth yw'r ffactorau sy'n cyfrannu i ganfyddiadau darpar athrawon AGA o'u sgiliau Cymraeg?

Ymestynna'r cwestiwn ymchwil hwn y ddau gwestiwn blaenorol drwy symud o ddisgrifio canfyddiadau i egluro eu hachosion. O fewn paradeim pragmataidd, mae'n cyfuno elfennau adeiladwriaethol (deall profiadau goddrychol) a phositifiaethol (mesur perthnasau), gan adlewyrchu'r angen am ddulliau cymysg (Creswell & Creswell, 2018, tt. 12–15). Yn wahanol i gwestiynau sy'n canolbwyntio ar "beth" yw'r canfyddiadau, mae'r cwestiwn hwn yn gofyn "pam", gan alw am ddata mwy esboniadol a chyd-destunol.

Caiff data ansoddol eu casglu trwy gyfweiliadau grŵp, a'u dadansoddi gan ddefnyddio dull chwe cham Braun a Clarke (2006; 2022), gan gynnwys codio systematig a datblygu themâu gyda dyfyniadau uniongyrchol. Serch hynny, gall diffyg eglurder epistemolegol danseilio cysondeb, a gall dibyniaeth ar ddehongli'r ymchwilydd gynyddu'r risg o ragfarn (Braun & Clarke, 2006; Nowell et al., 2017; Thomas, 2017).

I ategu hyn, defnyddir data meintiol trwy holiaduron a phrofion ystadegol i archwilio cysylltiadau rhwng grwpiau (er enghraifft, siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr), gan brofi'r ddamcaniaeth nwl (Creswell & Creswell, 2018, tt. 115–117; Cohen, Manion & Morrison, 2018, t. 528). Er bod cyfyngiadau i ddulliau o'r math mewn astudiaethau ymchwil bychain (Thomas, 2021, tt. 149–151), mae eu cyfuno'n cynyddu dilysrwydd (Creswell, 2014). Cysyllta'r cwestiwn yn uniongyrchol â'r llenyddiaeth, gan archwilio ffactorau fel cymariaethau cymdeithasol, hunaniaeth ac anghydraddoldebau ieithyddol (Staples, 2025; Williams & Cooper, 2021; Jones, Reppa & Reed, 2022), gan gynnig dealltwriaeth ddyfnach o'r dylanwadau cymhleth ar ganfyddiadau.

Diwedd glo

I gloi, dengys y tri chwestiwn ymchwil dilyniant rhesymegol o ddisgrifio i fesur ac yna i egluro canfyddiadau darpar athrawon o'u sgiliau Cymraeg. Canolbwyntia Cwestiwn 1 ar brofiadau goddrychol, Cwestiwn 2 yn meintoli patrymau a gwahaniaethau, tra bod Cwestiwn 3 yn uno'r ddwy ymagwedd i archwilio'r ffactorau sylfaenol. Gyda'i gilydd, maent yn cyfiawnhau mabwysiadu paradeim pragmataidd a dulliau cymysg, gan sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn o'r maes. Ymatebant hefyd yn uniongyrchol i'r bylchau a nodwyd yn y llenyddiaeth, gan gynnig cyfraniad gwreiddiol sy'n cyfuno mesur ystadegol â dehongliad cyd-destunol.

Casgliad

Archwilia'r aseiniad hwn yn feirniadol y rhesymau pam mae rhai darpar athrawon yn teimlo nad yw eu sgiliau Cymraeg yn ddigon da i astudio ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn cyd-destun polisi ac addysg yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r broblem ymchwil drwy adolygiad o'r llenyddiaeth, gan nodi bylchau a ffactorau allweddol megis cymariaethau cymdeithasol, pwysau addysgol ac anghydraddoldebau ieithyddol.

Yn ogystal, trafoda'r aseiniad sut mae paradeimau ymchwil yn llywio dyluniad yr astudiaeth, gan ddadlau o blaid ymagwedd bragmataidd sy'n cyfuno dulliau ansoddol a meintiol. Trwy hyn, bwriedir casglu a dadansoddi data i ddeall profiadau, mesur patrymau ac egluro ffactorau dylanwadol. Yn y pen draw, nod yr aseiniad yw cyfrannu at wybodaeth yn y maes a llywio datblygiadau strategol mewn addysg Gymraeg.

3818 o eiriau

Cyfeirnodau

- Bethlehem, J. a Kersten, H. (2017) *Understanding and reducing survey nonresponse*. Statistics Netherlands.
- Bourhis, R.Y. a Giles, H. (1973) 'Language as a determinant of Welsh identity', *European Journal of Social Psychology*, 3(4), pp. 417–460.
- Braun, V. a Clarke, V. (2006) 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), pp. 77–101.
- Braun, V. a Clarke, V. (2022) *Thematic Analysis: A Practical Guide*. SAGE.
- British Educational Research Association (2024) *Ethical Guidelines for Educational Research*. 5th edn. London: BERA. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-fifth-edition-2024> (Cyrchwyd: 22 Mawrth 2026).
- Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2018) *Research Methods in Education*. 8th edn. Routledge.
- Cook, T.D. a Campbell, D.T. (2000) *Quasi-experimentation: Design and analysis issues for field settings*. Houghton Mifflin.
- Creswell, J.W. (2014) *Research Design: Qualitative, Quantitative, and Mixed Methods Approaches*. 4th edn. Sage.
- Creswell, J.W. a Creswell, J.D. (2018) *Research Design: Qualitative, Quantitative, and Mixed Methods Approaches*. 5th edn. Sage.
- Crotty, M. (1998) *The foundations of social research: Meaning and perspective in the research process*. SAGE Publications.
- Cyngor y Gweithlu Addysg (2025) *Ystadegau Gweithlu Addysg Blynyddol ar gyfer Cymru 2025*. Ar gael yn: <https://www.ewc.wales> (Cyrchwyd: 22 Mawrth 2026).
- Denscombe, M. (2021) *The Good Research Guide: For Small-Scale Social Research Projects*. 7th edn. Open University Press.
- Geddes, B. (cited in Silverman, D. (2024)) *Doing Qualitative Research*. Oxford University Press.
- Heaton, J. (2021) *Secondary analysis of qualitative data: A practical guide*. 2nd edn. SAGE Publications.
- Jones, R., Reppa, I. a Reed, P. (2022) 'Perceptions of linguistic parity on social media: a qualitative comparison between primary Cymraeg and English medium secondary school pupils', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25(10), pp. 3659–3672. doi: 10.1080/13670050.2022.2072171.
- King, N. and Horrocks, C. (2010) *Interviews in qualitative research*. SAGE Publications.

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 1

Krueger, R.A. and Casey, M.A. (2015) *Focus groups: A practical guide for applied research*. 5th edn. SAGE Publications.

Lee, R. (2016) *Language ideologies in the secondary school: Attitude and identity in bilingual Wales*. PhD thesis. University of York.

Lee, R.L. (2015) 'Implicit associations with Welsh in two educational contexts', *York Papers in Linguistics*, 2(14).

Llywodraeth Cymru (2020) *Arolwg Defnydd iaith Gymraeg 2019–20*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales> (Cyrchwyd: 22 Mawrth 2026).

Llywodraeth Cymru (2023) *Canlyniadau Cyfrifiad y Gweithlu Ysgol: Tachwedd 2023*. Ar gael yn: <https://www.gov.wales> (Cyrchwyd: 22 Mawrth 2026).

Mayr, R., Morris, J. a Gruffydd, I. (2025) 'Welsh accents and social identity: a study on perceptions of new and traditional speakers', *Journal of Language and Social Psychology*. doi: 10.1177/0261927X251374843.

Melnikovas, A. (2018) 'Towards an explicit research methodology: Adapting research onion model for futures studies', *Journal of Futures Studies*, 23(2), pp. 29–44.

National Survey for Wales (2025) *Arolygon a hyder iaith Gymraeg (NatCen omnibus survey)*. Llywodraeth Cymru.

Neuman, W.L. (2014) *Social research methods: Qualitative and quantitative approaches*. 7th edn. Pearson Education.

Nowell, L.S., Norris, J.M., White, D.E. a Moules, N.J. (2017) 'Thematic analysis: Striving to meet the trustworthiness criteria', *International Journal of Qualitative Methods*, 16(1), pp. 1–13.

Office for National Statistics (2022) *Welsh language, Wales: Census 2021*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk> (Cyrchwyd: 22 Mawrth 2026).

Palinkas, L.A., Horwitz, S.M., Green, C.A., Wisdom, J.P., Duan, N., a Hoagwood, K. (2015) 'Purposeful sampling for qualitative data collection and analysis in mixed method implementation research', *Administration and Policy in Mental Health and Mental Health Services Research*, 42(5), pp. 533–544.

Patton, M.Q. (2002) *Qualitative research and evaluation methods*. 3rd edn. SAGE Publications.

Pring, R. (2015) *Philosophy of Educational Research*. 3rd edn. Bloomsbury.

Research Excellence Framework 2029 guidance (2026) Section 4 – Contributions to Knowledge and Understanding (CKU). Ar gael yn: <https://2029.ref.ac.uk/guidance/section-4-contributions-to-knowledge-and-understanding-cku-guidance/> (Cyrchwyd: 23 Mawrth 2026).

Rhys, M. a Smith, K. (2022) "Everything we do revolves around the exam": What are students' perceptions and experiences of learning Welsh as a second language in Wales', *Wales Journal of Education*, 24(1). doi: 10.16922/wje.24.1.1

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 1

Romain, P.L., 2015. Conflicts of interest in research: looking out for number one means keeping the primary interest front and center. *Current Reviews in Musculoskeletal Medicine*, 8, pp. 122–127.

Roulston, K. (2014) 'Interactional problems in research interviews', *Qualitative Research*, 14(3), pp. 277–293.

Saunders, M., Lewis, P., Thornhill, A. (2023). *Research Methods for Business Students*. 9th edition. Pearson.

Scotland, J. (2012) 'Exploring the philosophical underpinnings of research', *English Language Teaching*, 5(9), pp. 9–16.

Selleck, C. a Barakos, E. (2023) 'A reflexive approach to researching bilingualism in Wales: language, legitimacy and positionality', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 44(8), pp. 672–688. doi: 10.1080/01434632.2023.2195382.

Sefydliad A (2025) *Cynllun Strategol 2025–2030*. Ar gael yn: [Cynllun Strategol2025_0.pdf](#) (Cyrchwyd: 22 Mawrth 2026).

Shepherd, J., Noble, E. a Parkin, J. (2022) *Positionality and reflexivity for early career researchers and postgraduate researchers*. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/blog/positionality-and-reflexivity-for-early-career-researchers-and-postgraduate-researchers> (Cyrchwyd: 22 Mawrth 2026).

Staples, H. (2025). Multilinguality in context: an ecological study of young language learners in Wales. *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 1–17.
<https://doi.org/10.1080/01434632.2025.2575800>

Thomas, D.R. (2017) 'Feedback from research participants: Are member checks useful in qualitative research?', *Qualitative Research in Psychology*, 14(1), pp. 23–41.

Thomas, G. (2021) *How to Do Your Research Project: A Guide for Students*. 3rd edn. Sage.

Trochim, W.M.K. a Donnelly, J.P. (2008) *The research methods knowledge base*. 3rd edn. Cengage Learning.

Van Mulukom, V., 2026. Social biases, identity-based reasoning, and trust in scientists. *Current Opinion in Psychology*, 68, pp. 102232.

Vaismoradi, M., Turunen, H. a Bondas, T. (2013) 'Content analysis and thematic analysis: Implications for conducting a qualitative descriptive study', *Nursing & Health Sciences*, 15(3), pp. 398–405.

Wald, N., Harland, T. a Daskon, C. (2023) 'The gap statement and justification in higher education research: an analysis of published articles', *Studies in Higher Education*, pp. 308–323.

WISERD Multi Cohort Study (2023) *Safbwyntiau pobl ifanc tuag at hyfedrwydd iaith Gymraeg*. Wales Institute of Social and Economic Research and Data.

1658035
ECDE7002
Cydran Asesu 1

Williams, M. a Cooper, S. (2021) 'Adult New Speakers of Welsh: Accent, Pronunciation and Language Experience in South Wales', *Languages*, 6(2), p. 86. doi: 10.3390/languages6020086.